Llywodraeth Cymru
Welsh Government

amgueddfa genedlaethol caerdydd
national museum cardiff

# *Cyfuno: Creu Cyfleoedd drwy Ddiwylliant*
# Eich barn ar raglen Cyfuno Llywodraeth Cymru

Mae Amgueddfa Cymru ac Is-adran Amgueddfeydd, Archifau a Llyfrgelloedd (MALD) Llywodraeth Cymru wedi comisiynu'r arolwg ar-lein hwn fel rhan o'r gwerthusiad parhaus o'r rhaglen *Cyfuno: Creu Cyfleodd drwy Ddiwylliant*. Mae'r gwerthusiad parhaus yn cael ei gydgysylltu gan Amgueddfa Cymru, ac mae'r arolwg hwn yn cael ei reoli gan Amgueddfa Cymru mewn partneriaeth ag ymchwilwyr o Wasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi Llywodraeth Cymru.

Llywodraeth Cymru yw rheolwr data'r arolwg. Nid ydym yn gofyn chi am unrhyw ddata personol. Fodd bynnag, bydd unrhyw ddata personol a ddarperir drwy'r dewisiadau ymateb agored yn cael ei olygu, a'r data crai wedi gneud yn ddienw, cyn iddo gael ei rannu ag Amgueddfa Cymru ar gyfer ddibenion dadansoddi.

Rydych wedi derbyn y gwahoddiad arolwg hwn gan Gydlynydd Cyfuno. Mae'r arolwg wedi'i anfon gan Amgueddfa Cymru at Gydgysylltwyr Cyfuno – yr unigolion hynny sy'n gyfrifol am gydgysylltu rhwydweithiau o bartneriaid o sectorau diwylliannol ac ystod eang o sefydliadau a rhaglenni eraill ar lefel leol - yn y lle cyntaf.

Nod yr arolwg yw cael barn a phrofiadau Cydlynydd Cyfuno a sefydliadau partner i fesur boddhad gyda'r rhaglen Cyfuno ac i amlygu unrhyw feysydd lle mae angen gwneud gwelliannau. Amcanion yr ymchwil yw:

- mesur boddhad ymatebwyr gyda'r rhaglen Cyfuno
- gofyn am sylwadau ar feysydd sy'n gweithio'n dda
- gofyn am sylwadau ar feysydd i'w gwella
- defnyddio'r canfyddiadau i helpu i flaenoriaethu meysydd i'w newid.

<u>Ni fydd</u> Cydgysylltwyr Cyfuno yn gallu cael mynediad at ganlyniadau'r arolwg. Bydd prif ymchwilydd Amgueddfa Cymru ac ymchwilwyr cymdeithasol Llywodraeth Cymru yn y Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi yn cynnal a dadansoddi'r arolwg.

Mae cyfranogiad yn gwbl wirfoddol. Fodd bynnag, mae eich barn a'ch profiadau o'r rhaglen Cyfuno yn bwysig er mwyn llywio'r gwaith o wneud gwelliannau.

# HYSBYSIAD PREIFATRWYDD – SEFYDLIADAU PARTNER

## *Data Personol*

Caiff data personol ei ddiffinio o dan y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data (GDPR) fel "unrhyw wybodaeth am unigolyn y gellir adnabod yr unigolyn hwnnw ohoni'n uniongyrchol neu'n anuniongyrchol". Nid yw Amgueddfa Cymru na Llywodraeth Cymru yn cadw cyfeiriadau e-bost sefydliadau partner. Mae Amgueddfa Cymru wedi gofyn am i Gydlynydd Cyfuno weithredu fel cyfryngwyr a gwahodd sefydliadau partner sy'n gweithredu yn eu rhwydweithiau nhw i gymryd rhan yn yr arolwg.

Gallwch chi optio allan o dderbyn cais i gymryd rhan yn yr arolwg, a chael eich atgoffa o'r arolwg, drwy anfon neges e-bost at anfonwr y wahoddiad arolwg, a fydd yn tynnu eich cyfeiriad e-bost o'r sampl.

Nid yw'r arolwg hwn yn gofyn chi am wybodaeth bersonol. Fodd bynnag, gallwch ddewis darparu data personol drwy'r cwestiynau penagored. Os darperir data personol mewn ymatebion i gwestiynau penagored, ni fyddwn yn ceisio eich adnabod o'r ymatebion na'ch cysylltu chi â'r ymatebion rydych yn eu darparu.

Os byddwch chi'n darparu data personol yn gofyn am ymateb, bydd yr ymchwilydd yn anfon y cais hyn ymlaen at y swyddog polisi perthnasol ac yna dileu o'r data ymchwil.

Felly, ar ôl derbyn data crai'r arolwg, caiff unrhyw wybodaeth bersonol ei golygu a bydd y canlyniadau'n ddienw.

## *Beth yw'r sail gyfreithiol dros gasglu'ch data?*

Y sail gyfreithiol dros brosesu gwybodaeth yn yr ymarfer casglu data hwn yw ein tasg gyhoeddus; hynny yw, ymarfer ein hawdurdod swyddogol i gyflawni rôl a swyddogaethau craidd Llywodraeth Cymru.

Mae arolygon fel hyn yn bwysig i Lywodraeth Cymru er mwyn casglu gwybodaeth a thystiolaeth o'i gallu i gyflawni blaenoriaethau'r llywodraeth. Mae'r rhaglen Cyfuno yn galluogi'r sector diwylliannol i gyfrannu at sawl un o'r amcanion yn Ffyniant i Bawb – strategaeth genedlaethol Llywodraeth Cymru i gyflawni ei blaenoriaethau allweddol ar gyfer tymor y Cynulliad hwn – gan gynnwys gwirfoddoli a chyflogadwyedd.

Mae'r rhaglen yn fecanwaith hefyd ar gyfer sbarduno newid i lawer o'r nodau a restrir o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.

## *Pa mor ddiogel yw fy nata personol?*

Wrth gynnal arolygon, mae Llywodraeth Cymru yn defnyddio rhaglen feddalwedd o’r enw Questback. Rydym wedi sicrhau bod Questback yn cydymffurfio â’r GDPR ac yn bodloni ein disgwyliadau mewn perthynas â diogelwch unrhyw ddata a gesglir trwy’r feddalwedd (e.e. mae’r holl ddata’n cael ei brosesu yn yr Ardal Economaidd Ewropeaidd). Dim ond nifer cyfyngedig o ymchwilwyr all lawrlwytho’r data. Llywodraeth Cymru yw rheolwr data'r arolwg. Bydd unrhyw wybodaeth bersonol adnabyddadwy yn cael ei thynnu gan ymchwilwyr o Wasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi Llywodraeth Cymru ar ôl derbyn yr ymatebion. Felly, bydd unrhyw ddata a gesglir oddi wrth sefydliadau partner yn cael ei gadw ar ffurf ddienw. O ganlyniad, nid oes unrhyw wybodaeth bersonol adnabyddadwy o'r arolwg hwn yn cael ei storio gan yr ymchwilwyr naill ai gan Lywodraeth Cymru nac Amgueddfa Cymru.

Bydd y data dienw o'r arolwg yn cael ei gadw o fewn ffeiliau cyfyngedig, lle mai dim ond ymchwilwyr sy'n gweithio ar werthusiad y rhaglen Cyfuno yn cael mynediad. Wrth adrodd ar ymchwil, dim ond mewn ffordd gyfanredol a dienw y byddwn yn gwneud hynny fel nad oes modd adnabod cyfranogwyr.

## *Am faint rydych chi’n cadw fy nata personol?*

O ran cadw data, bydd ymchwilwyr o Wasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi yn golygu unrhyw wybodaeth bersonol ac a gyflwynwyd gan ymatebwyr ar y pwynt derbyn. Ni fyddwn yn dal unrhyw wybodaeth bersonol gan sefydliadau partner y tu hwnt i'r pwynt hwn.

Bydd y data dienw o’r arolwg yn cael ei ddileu 12 mis ar ôl cyhoeddi adroddiad Ymchwil Gymdeithasol y Llywodraeth, i'w gyhoeddi ar dudalennau gwe Llywodraeth Cymru erbyn Ebrill 2019.

## *Hawliau Unigol*

O dan y GDPR, mae gennych chi’r hawliau canlynol mewn perthynas â’r wybodaeth bersonol rydych chi’n ei darparu fel rhan o’r gwerthusiad hwn:

- Hawl i gael mynediad (gofyn am gopi o’ch data);
- Hawl i gywiro (cywiro gwybodaeth anghywir);
- Hawl i wrthwynebu neu gyfyngu ar brosesu data;
- Hawl i ddileu;
- Hawl i gyflwyno cwyn i swyddfa’r comisiynydd gwybodaeth.

○

***Mwy o wybodaeth***

Os oes gennych chi unrhyw gwestiynau pellach am sut y bydd y data a ddarperir fel rhan o'r astudiaeth hon yn cael ei ddefnyddio gan ymchwilwyr Amgueddfa Cymru a Llywodraeth Cymru, os ydych chi am i'ch cyfeiriad e-bost gael ei ddileu o'r sampl ar gyfer y gwaith ymchwil hwn, os oes gennych chi unrhyw bryderon ynghylch cywirdeb eich data personol neu os ydych chi am arfer eich hawliau gan ddefnyddio'r Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data, cysylltwch â:

- Kate Mulready (Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi, Llywodraeth Cymru)
  Ffôn: 0300 025 1481
  E-bost: kathleen.mulready001@gov.wales

Gallwch chi gysylltu â Swyddog Diogelu Data Llywodraeth Cymru fel a ganlyn:

- Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd, CF10 3NQ; e-bost: DataProtectionOfficer@gov.wales

Gallwch chi gysylltu â Swyddog Diogelu Data Amgueddfa Cymru fel a ganlyn:

- Amgueddfa Cymru, Parc Cathays, Caerdydd. CF10 3NP
  tim.phillips@museumwales.ac.uk

Yn ogystal, gallwch chi gwyno am y ffordd mae Amgueddfa Cymru a/neu Lywodraeth Cymru wedi prosesu'ch gwybodaeth bersonol i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth trwy ffonio 029 2067 8400 / 0303 123 1113.